PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 5 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Carter, Ebrahim, Jenkins, Kelloway, Lent a/ac Molik |

35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Goddard.

36 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau buddiant oddi wrth y Cynghorwyr Ahmed a Molik o ran Eitem 4.

Datganodd y Cynghorydd Molik fuddiant personol fel landlord preifat.
Datganodd y Cynghorydd Ahmed fuddiant personol gan fod aelod teulu yn landlord preifat.

37 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

38 : STRATEGAETH ADOLYGIAD TAI A DIGARTREFEDD 2018-22

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau a Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau bod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar Strategaeth Ddigartrefedd Caerdydd 2018-22, ac i ddadansoddi'r adolygiad o ddigartrefedd a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth ar gyfer y Rhai sy'n Cysgu Allan, sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y Cynnig Cabinet. Byddai'r Cabinet yn ystyried yr eitem hon ar 13 Rhagfyr 2018.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod y strategaeth yn seiliedig ar adolygiad cynhwysfawr o ddigartrefedd yng Nghaerdydd. Mae'r pwysau ar wasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o ran nifer y cleientiaid a chymhlethdod cynyddol eu hanghenion. Er bod gan y Cyngor a'i bartneriaid gyfoeth o wasanaethau i'r digartref yng Nghaerdydd, mae angen eu hadolygu'n gyson a'u gwella i ateb heriau newydd. Felly, mae'r Strategaeth yn nodi nifer sylweddol o ymrwymiadau a chamau gweithredu er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol i bob person digartref a hefyd i ddiwallu anghenion dinasyddion mwyaf agored i niwed y ddinas.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar y Strategaeth Adolygu Ddigartrefedd a Thai 2018-22 ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt.

Nododd yr Aelodau nad yw digartrefedd bob amser yn ymwneud â thai a bod llawer o faterion cymhleth eraill ynghlwm wrth hyn. Roedd yr Aelodau'n pryderu, fodd bynnag, gan eu bod wedi clywed nad oedd y rhai a oedd yn cysgu allan yn hapus gyda'r gwasanaethau a gynigid iddynt ac y byddai'n well ganddynt beidio ag ymgysylltu â hwy. Nododd yr Aelodau fod digon o lety ar gyfer pawb a oedd yn cysgu allan felly roeddent am gael eglurhad ynghylch ai'r llety neu'r gwasanaethau cymorth yr oedd y rhai oedd yn cysgu allan yn dewis peidio â'u cymryd. Eglurodd swyddogion nad yw pobl bob amser eisiau’r llety sydd ar gael, fel yn y Ganolfan Huggard, Litchfield Court neu Loches Nos y Wallich. Dywedodd swyddogion y gallai'r llety a gynigir weithiau gael ei ddefnyddio fel esgus gan y rhai nad ydynt am ymgysylltu, felly roedd yn hanfodol aros am yr amser iawn i ymgysylltu â phobl, gan gynnwys cynnig cymorth ar y strydoedd.

Trafododd yr Aelodau'r Ganolfan Huggard ymhellach, gan nodi bod ganddi'r gyfradd troi allan isaf, ond hefyd bod achlysuron lle y gallai'r bobl fod yn aflonyddgar. Dywedasant mai'r bobl hyn oedd yr anoddaf i ddelio â nhw a'u bod yn gyndyn i'w troi allan a'u rhoi yn ôl ar y strydoedd. Ychwanegodd swyddogion fod y gwasanaethau o ran llety yn gymhleth a bod angen eu darparu lle bynnag yr oedd ar bobl ei angen bryd hynny, hyd yn oed os oedd hynny allan ar y stryd. Roedd yr Aelodau'n cytuno bod angen ymagwedd aml-asiantaeth ragweithiol a bod yna wasanaethau ar gael sy'n ymgysylltu'n dda, felly roedd angen cydweithio.

Bu'r Aelodau'n trafod Tai yn Gyntaf a nodwyd bod 8 uned. Eglurodd swyddogion y gallai'r nifer hwn ymddangos yn isel ond bod angen gwneud llawer o waith ar y stryd cyn bod pobl yn barod i fynd i lety. Trafododd yr Aelodau ymhellach sut y gall pobl gael gafael ar wasanaethau ac, er enghraifft, gwella ar ôl dibyniaeth, os nad ydynt mewn llety. Ailadroddodd y swyddogion ei fod yn ymwneud llawer mwy ag ymyrryd ar yr adeg gywir yn hytrach na llety.

Cyfeiriodd yr Aelodau at gysylltiadau rhwng cymorth iechyd meddwl a digartrefedd, gan nodi na soniwyd am hyn yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a archwiliwyd yn ddiweddar.

Gofynnodd yr Aelodau a allai'r gwasanaethau gobaith olaf gael eu dyblygu ledled y ddinas yn hytrach na chael y bobl fwyaf anodd ac agored i niwed i gyd mewn un lle, fel yng Nghanolfan Huggard. Esboniodd swyddogion fod darpariaeth arall ar gael. Roedd swyddogion o'r farn bod angen rhoi mwy o adnoddau i Ganolfan Huggard, cynyddu gwarchodaeth yn ystod y nos a'i gwneud yn fwy croesawgar, cynyddu gweithgareddau i bobl, cael gwasanaethau partner yno i helpu a chadw pobl yn ddefnyddiol weithgar.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor ddiogel oedd Canolfan Huggard ac a oedd unrhyw lety penodol ar gyfer menywod. Dywedodd swyddogion ei fod yn ddiogel ac nad oedd unrhyw adroddiadau o bobl yn cael eu brifo, y gall unrhyw bobl/menywod sy'n arbennig o agored i niwed fynd i mewn i'r podiau/ystafelloedd; bod lle ar gael bob amser a bod dewisiadau eraill ar gael bob amser hefyd.

Roedd aelodau o'r farn bod hwn yn fater mor eang ac o ystyried ei gymhlethdod, gofynnwyd a oedd swyddogion o'r farn y dylid rhannu'r strategaeth yn ardaloedd llai gan fynd i'r afael â'r materion yn gynt cyn i ddigartrefedd ddod yn ganlyniad i hynny. Roedd y swyddogion yn cytuno ac yn esbonio bod llawer o waith yn digwydd gyda chymorth cynnar, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl a'r holl weithgarwch

rhyngberthynol; ei bod yn bwysig dod â'r gwasanaethau o amgylch anghenion yr unigolyn mor effeithlon ac effeithiol â phosibl a hefyd bod yr holl wasanaethau yn siarad â'i gilydd.

Nododd yr Aelodau'r gwaith da a wnaed ar ddata, dulliau atal a gwasanaethau yn mynd allan i'r Hybiau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd dadl dros gynyddu nifer y llety dros dro o bosibl drwy rentu'n llu o'r sector preifat a gofyn beth oedd y strategaeth a'r ymagwedd ar hyn. Esboniodd swyddogion fod hyn eisoes yn digwydd drwy bartneriaid, gan ychwanegu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynllun ar gyfer gosodiadau tymor hwy o'r sector preifat (hyd at 5 mlynedd) a fyddai'n welliant gan ei bod yn bwysig symud pobl ymlaen i lety mwy parhaol.
Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at lety mewn cynwysyddion a fframiau pren ac esboniodd ei fod yn cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd ond bod y safleoedd yn cael eu paratoi. Roedd safleoedd ar draws y ddinas y gellid eu defnyddio, a oedd yn eiddo i'r Cyngor neu Lywodraeth Cymru, nad oeddent wedi'u nodi i'w datblygu am y 5 neu fwy o flynyddoedd nesaf a oedd yn gyfnod lled barhaol.

Gofynnodd yr Aelodau pa gymhellion oedd yn cael eu cynnig i landlordiaid preifat a sut mae tenantiaid yn ariannu'r bwlch rhwng budd-daliadau a rhenti uchel. Eglurodd swyddogion yn nhermau cymhellion eu bod yn dod o hyd i'r tenantiaid ac yn gwneud rhestri a'u bod yn treialu gweithredu fel gwarantwr ar gyfer rhent 5 mis. Byddai yna dîm penodol a fyddai'n siarad â landlordiaid ac yn rhoi cyngor ar bethau fel larymau tân. Gyda'r bwlch mewn rhenti, eglurodd swyddogion fod llawer o bobl yn gorfod talu'r rhent a'i bod yn bwysig, wrth asesu, i beidio â lleoli pobl os nad ydynt yn gallu fforddio'u rhent yn y dyfodol.

Bu aelodau'n trafod bondiau papur ac fe'u cynghorwyd bod landlordiaid yn gyndyn o gymryd y rhain, a oedd yn anarferol gan fod rhaid rhoi bondiau mewn diogelwch bondiau. Dywedodd swyddogion hefyd fod gwarantwyr a ffioedd asiantaethau yn achosi problemau mawr gyda landlordiaid. Ychwanegodd fod llwyddiannau'n bodoli a bod pobl yn cael eu rhoi mewn eiddo yn y sector rhentu preifat.

Trafododd yr Aelodau gylch y Carchar, Camddefnyddio Sylweddau, Hosteli a'r Carchar eto ac roeddent o'r farn, os nad oedd pobl wedi'u harfogi i ymdopi, y gallent fod yn well mewn llety gyda llai o bobl a mwy o gefnogaeth. Dywedodd swyddogion eu bod yn ceisio cefnogi pobl drwy'r prosiect eiriolaeth lle y nodir anghenion unigolyn a bod cymorth wedi'i deilwra o'u hamgylch.

Nododd yr Aelodau ganfyddiad y cyhoedd bod yr hosteli wedi eu hesgeuluso, eu bod yn ddigroeso ac yn anniogel, a gofynnwyd beth y gellid ei wneud i gywiro hyn. Roedd y swyddogion yn cytuno y gellid cyfathrebu'n well â'r cyhoedd, o bosibl drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Gofynnodd yr Aelodau pryd y gwneir camgymeriadau a oes prosesau ar gyfer dysgu o'r camgymeriadau hynny a gwneud gwelliannau wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau. Dywedodd yr Aelod Cabinet eu bod yn nodi pethau sy'n gweithio'n dda a phethau nad ydynt yn gweithio mor dda, yn hytrach na chamgymeriadau; maent yn gwneud pethau gyda phwrpas ond weithiau nid ydynt yn cael y canlyniadau a ddymunir. Dywedodd swyddogion efallai na fyddai canlyniad i unigolyn yn gweithio am lawer o resymau ond mai'r holl gyngor a roddid byddai'r cyngor mwyaf effeithiol a

chydgysylltiedig o ran amser; gellid dysgu gwersi o’r adegau pan na fydd y canlyniad yn digwydd ond nid yw hyn drwy gamgymeriad gan fod pobl yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain.

Gofynnodd yr Aelodau pryd fyddai Cynllun Gweithredu mewn lle ac yn cael ei roi ar waith. Dywedodd swyddogion ei bod yn strategaeth hirdymor hyd at 2022, byddai'r Cynllun Gweithredu ar waith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol; bydd angen i bartner gymryd rhan mewn rhai camau gweithredu felly bydd rhaid sicrhau rhywfaint o aliniad.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

39 : EFFAITH CREDYD CYNHWYSOL AR ÔL-DDYLEDION RHENT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau a Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon wedi'i chyflwyno ar yr agenda, ar ôl i nodyn briffio ar y mater hwn gael ei ddosbarthu i Aelodau’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Aelod Cabinet wneud datganiad lle dywedodd y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r materion gyda Chredyd Cynhwysol o'r cyhoeddusrwydd cenedlaethol a'r pwysau y mae hyn wedi'i roi ar unigolion a'r rhai sy'n ceisio'u cefnogi. Bydd y cyflwyniad heddiw yn nodi'r effeithiau ar denantiaid Cyngor Caerdydd a'r cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent sydd wedi deillio o hynny. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod y sefyllfa’n anffodus ond yn debygol o waethygu wrth i fwy o denantiaid gael eu heffeithio.
Hysbyswyd yr Aelodau bod y cyflwyniad yn nodi sut mae Swyddogion yn addasu gwasanaethau i ymateb i'r her newydd hon ac i atal achosion cyfreithiol a dadfeddiannu lle y bo'n bosibl.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion rhent ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n effeithio ar y Cyfrif Refeniw Tai pe bai lefelau tebyg o fethiant talu yn parhau. Esboniodd swyddogion os oedd y methiannau talu'n parhau ar y llwybr presennol, bydd effaith, ond gan mai dim ond mewn perthynas â dyledion a oedd wedi'u dileu oedd hyn, roedd yn anodd gweithio allan y lefelau. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad bod Cychwyn Newydd yn fath o ddileu dyledion, ac fe'i cynghorwyd bod hyn yn gywir.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i newid o fodel rhent wythnosol i rhent misol. Dywedodd swyddogion eu bod wedi meddwl am rent misol ac am Gredyd Cynhwysol y byddent yn derbyn taliad ar ddiwedd y mis pan fydd tenantiaid yn cael eu talu a gall eu cofnodion gael eu rhaglennu gyda'r dyddiad hwnnw. Esboniwyd bod pob cytundeb tenantiaeth yn cael ei roi ar rent wythnosol ond y gall tenantiaid dalu'n fisol os ydynt yn dymuno. Eglurwyd hefyd bod rhai tenantiaid y mae'n well ganddynt dalu'n wythnosol, a thrwy newid i bob mis, ni fyddent yn gallu parhau i wneud hynny, ond byddai hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y materion hyn a gofynnwyd ai'r dull talu neu'r swm a oedd yn cael ei dalu a oedd yn achosi'r problemau. Esboniodd swyddogion mai'r dull talu oedd y broblem, bod tenantiaid yn cael eu talu mis yn ddiweddarach a'u bod yn gorfod cyllidebu yn unol â hynny ond eu bod mewn ôl-ddyledion o'r dechrau. Dywedodd yr Aelod Cabinet roedd beth oedd yn digwydd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu canfyddiadau'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd gan wahanol awdurdodau lleol, ond bod y cynllun yn dal i gael ei gyflwyno.

Roedd un aelod o'r farn bod Caerdydd wedi cael mwy o amser nag awdurdodau lleol eraill i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol a gofynnodd a oedd Caerdydd wedi paratoi neu a oedd o hyd yn dal i fyny. Dywedodd swyddogion fod Caerdydd yn rhan o'r peilot ar gyfer taliadau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol; gan ychwanegu bod Caerdydd wedi'i sefydlu'n llawn ar gyfer y cynllun. Ychwanegodd swyddogion fod Caerdydd yn cartrefu nifer cynyddol o bobl agored iawn i niwed ac mae angen rhagweld y bydd y bobl hyn yn brwydro ac yn achub y blaen ar y penderfyniad i wneud cais am daliadau uniongyrchol, ac mae angen newid y weithdrefn ar gyfer hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Caerdydd yn fwy parod na'r rhan fwyaf a'i bod wedi nodi'r holl denantiaid a oedd yn y gyfran gyntaf i gael eu heffeithio arnynt; roedd cysylltiad personol wedi'i wneud â thenantiaid, roedd canolfannau wedi'u sefydlu, roedd staff wedi'u hyfforddi ac roedd cymorth wedi'i roi, gan ychwanegu bod y broblem yn ymwneud â'r ffordd y cafodd y cynllun ei gyflwyno a'r effaith yr oedd yn ei chael ar deuluoedd.

Roedd aelod o'r farn bod ymdeimlad negyddol iawn o amgylch y mater ac y dylai Caerdydd fod yn croesawu Credyd Cynhwysol. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Caerdydd wedi croesawu Credyd Cynhwysol a'i fod yn barod i gefnogi pobl; roedd Caerdydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot ac wedi nodi materion fel ôl-ddyledion rhent ac roedd y materion hyn wedi dod i'r amlwg nawr bod y cynllun yn cael ei gyflwyno; roedd Caerdydd bellach yn gweithio'n galed i ddod o hyd i ffyrdd o liniaru'r problemau hyn.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod yn ofidus iawn ar ôl darllen yr adroddiad briffio ar y mater hwn a'i bod wedi gofyn i'r mater ddod gerbron y Pwyllgor; dywedodd fod pobl ar gyfartaledd £1000 mewn ôl-ddyledion, a bod tua £1miliwn o ddyled o bosibl i'r cyngor a bod angen i staff ychwanegol cael eu cyflogi. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw sefydliadau a oedd yn lobïo am iawndal i awdurdodau lleol, dywedodd swyddogion nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw rai ond os felly gallai fod achos dros hawlio costau ac adnoddau ychwanegol.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 40 : ATAL POBL IFANC RHAG BOD YN RHAN O DDELIO CYFFURIAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn cynnwys yr adroddiad drafft ar yr ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a’r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar y cyd i atal pobl ifanc rhag ymwneud â delio â chyffuriau. Y Cynghorydd Ebrahim oedd Cadeirydd yr ymchwiliad, gyda'r Cynghorydd McGarry a'r Cynghorydd Kelloway hefyd yn cynrychioli’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar y Grŵp Gorchwyl.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr adroddiad a'i gymeradwyo, cyn iddo fynd ymlaen i'r Cabinet i'w ystyried.  Byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 11 Rhagfyr 2018.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ebrahim i wneud datganiad lle dywedodd fod yr Aelodau yn cyflwyno adroddiad o ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a’r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar y cyd, yn dilyn ymchwiliad saith mis i'r effaith y gall delio â chyffuriau ei chael ar fywyd person ifanc, ei deulu a'r gymuned ehangach.

Roedd 7 o gynghorwyr o'r ddau Bwyllgor Craffu yn aelodau o'r Tîm Ymchwilio, ac fe'u cynhaliwyd rhwng Hydref 2017 a Mai 2018.  Yn ystod y cyfnod hwn, clywodd y Tîm Ymchwilio gan tua 30 o dystion wyneb yn wyneb; astudiwyd ystod eang o dystiolaeth eilaidd; a dosbarthodd arolwg cymunedol, a arweiniodd at 413 o ymatebion.

Roedd 46 o ganfyddiadau allweddol a 19 o argymhellion yn yr adroddiad.

Effaith gweithgareddau troseddol sy'n gysylltiedig â chyffuriau ar gymunedau
Sut y gall y Cyngor a'i bartneriaid ddiogelu pobl ifanc a'u teuluoedd
Rôl Asiantaethau a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd a gyda'r gymuned ehangach
Pwysigrwydd addysg a chodi ymwybyddiaeth
Materion yn ymwneud â throsedd a gorfodi mewn perthynas â gweithgarwch sy'n ymwneud â chyffuriau

Roedd yn bwysig nodi beth fyddai'n gyrru person ifanc i ymwneud â delio â chyffuriau.  Arweiniodd hyn at nifer o resymau cymhleth iawn, yn amrywio o dlodi a diffyg cyfleoedd i'w weld fel ffordd gyflym o ennill arian a chael nwyddau materol. Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn hanfodol oedd cadw mewn cof bod y rhain yn dal i fod (ar y cyfan) yn bobl ifanc agored i niwed a oedd yn cael eu paratoi gan bobl hŷn.

I'r gwrthwyneb, datgelodd yr ymchwiliad hefyd yr ofnau a'r rhwystredigaethau y mae cymunedau’n teimlo sy'n gorfod bod yn dyst i'r troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac ymdrin â hwy.  Teimlai’r Tîm Ymchwili fod pob cymuned yn haeddu byw mewn amgylchedd diogel ac iach lle na ddylai ymdrin â chyffuriau, cymryd cyffuriau a niwsans arall megis nodwyddau'n cael eu gwaredu fod yn bla ar eu bywydau.  Ni ddylai plant orfod bod yn dyst i'r math hwn o ymddygiad a'i weld fel y "norm" ar eu strydoedd.

Clywodd y Tîm Ymchwilio gan ystod eang o sefydliadau sy'n ymdrin â'r mater hwn. Yr oeddem i gyd yn cydnabod eu bod i gyd yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r mater hwn.  Canmolodd llawer o dystion yr heddlu am eu hymrwymiad i weithio mewn cymunedau, ond roedd angen gwneud mwy i gefnogi hyn.

Drwy gydol yr ymchwiliad, roedd yn galonogol clywed yr awydd gwirioneddol gan unigolion a sefydliadau i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth i fywydau pob person ifanc yn eu cymunedau.  Roedd y Cynghorydd Ebrahim yn credu pe bai cymunedau, asiantaethau a phartneriaid yn gallu cydweithio i ddarparu ystod o fesurau lleol, y gallai pob un ohonom gael effaith wirioneddol ar ddarparu gwasanaethau, modelau rôl ac opsiynau i bobl ifanc ddewis llwybr mwy cadarnhaol.

Ychwanegodd y gall y Cyngor a'i bartneriaid, drwy'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, gymryd cam mawr ymlaen wrth fynd i'r afael â'r mater hwn, ac felly gofynnodd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau;

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn adroddiad cynhwysfawr iawn ac roedd yn newid braf i gael Tîm Ymchwilio a oedd wedi'i gadeirio gan rywun ar wahân i Gadeirydd Craffu.

Trafododd yr Aelodau nifer y bobl, y sefydliadau a'r timau cymunedol a oedd yn rhan o'r ymchwiliad a nodwyd eu bod i gyd yn cymeradwyo'r adroddiad, gan ddweud ei fod yn mynd i fod yn waith caled ond ei fod yn gyraeddadwy.

Roedd yr aelodau o'r farn bod gan yr adroddiad set dda iawn o argymhellion.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y byddai'r adroddiad yn awr yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet yn dilyn ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

41 : BLAENGYNLLUN GWAITH/CYNLLUN BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi crynodeb o fusnes y Pwyllgor ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys; Ymateb gan y Cynghorydd Thorne i fater Tai Gwag a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ym mis Hydref 2018; Ymateb gan Geraint Rees, Swyddfa'r Comisiynydd Hawliau Dynol ynghylch y mater Pecyn Cymorth Tai a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ym mis Hydref 2018; Rhaglen waith 2018/19 wedi'i diweddaru; Blaenraglen waith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion Ionawr – Ebrill 2019; Grwpiau Ymchwiliadau/Gorchwyl a Phanel Perfformiad y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

O ran y rhaglen waith, hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r cyfarfod ym mis Ionawr 2019 bellach yn cael dau eitem cyn gwneud penderfyniad ar yr agenda, yn ogystal ag adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gofynnwyd i Aelodau am eu barn ynghylch pryd yr hoffent graffu ar Ddigartrefedd ac ar ôl ystyried, penderfynodd yr Aelodau y byddent yn hoffi cael cyfarfod craffu ychwanegol rhwng y cyfarfodydd Ionawr a Chwefror a drefnwyd yn barod. Byddai'r Prif Swyddog Craffu yn edrych i mewn i argaeledd ar gyfer y cyfarfod ac yn trefnu dyddiad addas.

Cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi'r rhaglen waith ddiwygiedig ar wefan y Cyngor.

42 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

43 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

9fed Ionawr 2019 am 4.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm